

Arian

Arian poced - Gweiddi



A ddylech chi weithio i gael arian poced?

Dyma sylwadau pobl ifanc am arian poced.



Beth



Dydw i ddim yn credu y dylwn i weithio er mwyn cael arian poced. Pam dylwn i wneud gwaith i gael arian poced? Rwy'n haeddu cael arian poced heb fod rhaid gweithio amdano.

Owain



Rwy'n fodlon tacluso fy ystafell er mwyn cael arian poced, ond dim mwy.

Rhodri



Rwy'n credu bod Mam yn defnyddio arian poced fel ffordd i'n cael ni i wneud gwaith tŷ. Ar hyn o bryd mae fy mrawd a minnau'n mynd â'r ci am dro ac yn golchi'r car.

Sara



Rwy'n cael arian poced am roi'r dillad ar y lein i sychu ac am roi'r bin a'r ailgylchu o flaen y tŷ. Does dim gwahaniaeth gen i wneud hyn. Mae fy rhieni'n gweithio ac rwy'n fodlon eu helpu yn y tŷ.

Lewis



Mae Dad yn rhoi mwy o arian na Mam. Rwy'n cael £3.50 gan Dad am olchi'r car, ond dim ond £1.50 mae Mam yn ei roi am dacluso'r ystafell.

Tomos



Rwy'n cael gwersi piano, ond roeddwn i'n casáu ymarfer. Felly, dechreuodd Dad roi arian poced i mi am ymarfer ac rwy'n ymarfer mwy nawr. Ond mae'n fy llwgrwobrwyo, a bod yn onest.

Mari



Rwy'n bargeinio gyda fy rhieni am arian poced os ydw i'n gweithio amdano. I ddechrau, rwy'n gofyn am swm mawr. Fel arfer maen nhw'n fodlon cwrdd yn y canol os ydw i'n dweud fy mod i'n fodlon hwfro neu rywbeth.

Beca



Rwy'n credu bod gweithio i gael arian poced yn beth da. Mae'n eich dysgu chi i ddeall bod arian ddim yn dod am ddim. Fel mae Mam yn dweud, "Dydy arian ddim yn tyfu ar goed".



10 uchaf y tasgau y mae rhieni eisiau i'w plant eu gwneud er mwyn cael arian poced:

1. Tacluso'r ystafell wely
2. Llenwi a gwacáu'r peiriant golchi llestri, golchi llestri a chlirio'r bwrdd ar ôl bwyta
3. Ymddwyn yn dda
4. Gwneud gwaith cartref neu ymarfer offeryn cerdd
5. Hwfro
6. Gofalu am anifail anwes
7. Glanhau ystafell (heblaw am eu hystafell wely)
8. Rhoi dillad yn y peiriant golchi, a rhoi'r dillad ar y lein ddillad

9. Rhoi'r sbwriel a'r ailgylchu'n barod i'w gasglu

10. Golchi'r car

Ydych chi'n dda gydag arian?



Atebwch yr holiadur hwn ar eich pen eich hun. Yna, edrychwch ar yr Allwedd i weld pa mor dda rydych chi'n trin arian.

1. Sut rydych chi'n cael eich arian?

- Rwy'n cael arian piced bob wythnos.
- Rwy'n defnyddio arian pen-blwydd neu arian Nadolig oddi wrth fy nheulu
- Rwy'n gweithio (e.e. rownd bapur, o gwmpas y tŷ) i ennill arian.

1. Pa mor aml rydych chi'n prynu losin?

- Rwy'n prynu losin bob dydd.
- Rwy'n prynu losin o leiaf unwaith yr wythnos.
- Dydw i byth yn prynu losin.

1. Pa mor aml rydych chi'n prynu dillad?

- Rwy'n prynu dilledyn o leiaf unwaith y mis.
- Rwy'n prynu dilledyn bob dau neu dri mis.
- Dydw i byth yn prynu dillad; mae fy rhieni'n eu prynu.

1. Beth wnewch chi fel arfer os cewch chi arian yn anrheg?

- Rwy'n ei wario i gyd.
- Rwy'n gwario ychydig ac yn cynilo ychydig.

c. Rwy'n cynilo'r cyfan.

1. Os ydych chi eisiau prynu rhywbeth drud, beth wnewch chi fel arfer?

a. Rwy'n gofyn am arian gan aelod o'r teulu.

b. Rwy'n benthyc arian gan aelod o'r teulu, i'w dalu'n ôl wedyn.

c. Rwy'n cynilo arian nes byddaf yn gallu ei fforddio.

1. Faint o ymchwil rydych chi'n ei wneud cyn prynu rhywbeth arbennig, e.e. i weld ble mae'r pris rhataf?

a. Dydw i ddim yn gwneud ymchwil, rwy'n prynu yn y siop gyntaf neu o'r safle we gyntaf rwy'n ei gweld. Does dim gwahaniaeth os ydw i'n talu'r pris drutaf.

b. Rwy'n gwneud peth ymchwil ond mae gallu prynu'n gyflym yn bwysicach nag arbed arian.

c. Rwy'n gwneud llawer o ymchwil ac yn talu'r pris rhataf bob tro.

1. Ydych chi'n dueddol o brynu rhywbeth rydych chi'n digwydd ei weld?

a. Ydw, yn aml.

b. Ydw, weithiau.

c. Nac ydw, byth.

1. Ydych chi'n mynd i siopau elusen i brynu llyfrau/dillad ac esgidiau/cerddoriaeth?

a. Nac ydw, byth.

b. Ydw, weithiau.

c. Ydw, yn aml.

1. Ydych chi'n mynd i'r llyfrgell i fenthyg llyfrau/DVDau/CDau?

a. Nac ydw, byth.

b. Ydw, weithiau.

c. Ydw, yn aml.

1. Oes arian gyda chi wedi'i gynilo?

a. Nac oes, does gen i ddim arian wedi'i gynilo o gwbl.

b. Oes, mae gen i ychydig bach o arian wedi'i gynilo.

c. Oes, mae gen i dipyn o arian wedi'i gynilo.

Allwedd:

Atebion a) yn bennaf: Rydych chi'n cael eich arian heb weithio amdano, ac rydych chi'n gwario arian fel dŵr! Does dim gwahaniaeth gyda chi dalu'r pris drutaf. Dydych chi ddim yn cynilo. Cofiwch eich bod yn gallu prynu pethau'n rhad mewn siop elusen, neu fenthyg llyfrau, DVDau a CDau am ddim o'r llyfrgell. Mae angen i chi feddwl am y ffordd rydych chi'n trin arian, neu gallech chi gael problemau yn y dyfodol.

Atebion b) yn bennaf: Rydych chi'n gallu trin arian yn dda. Dydych chi ddim yn gorwario ac rydych chi'n cynilo peth arian. Rydych chi'n defnyddio siopau elusen a'r llyfrgell weithiau er mwyn arbed arian. Edrychwch eto ar yr atebion lle rydych chi wedi ateb a) i weld beth allech chi ei wneud i wella pethau.

Atebion c) yn bennaf: Rydych chi'n ofalus iawn gydag arian. Dydych chi ddim yn gwario os nad oes rhaid i chi, ac os ydych chi'n prynu rhywbeth arbennig, rydych chi'n gwneud ymchwil i ddod o hyd i'r pris rhataf. Rydych chi'n cynilo arian. Ond peidiwch â bod yn rhy galed arnoch chi eich hun: mae'n iawn i chi gael ambell ddilledyn newydd neu losin weithiau.

Y Bathdy Brenhinol - Gweiddi



Oes gennych chi ddarnau arian? Os felly, maen nhw'n dod o'r Bathdy Brenhinol (*Royal Mint*) yn Llantrisant.

Bathdy Brenhinol

Yn y Bathdy Brenhinol mae pob darn o arian ym Mhrydain yn cael ei fathu. Ond nid dim ond darnau arian Prydain chwaith – mae'r Bathdy Brenhinol yn bathu arian 60 gwlad, o Jamaica i Seland Newydd, ac o Wlad yr Iâ i Hong Kong.

Dim ond darnau arian sy'n cael eu bathu yn Llantrisant. Cwmni o'r enw De la Rue sy'n gwneud arian papur.

Faint o ddarnau sy'n cael eu bathu?

Bob munud, mae 750 darn o arian yn cael eu bathu, sef tua 90 miliwn o ddarnau arian yr wythnos, bron i 5 biliwn y flwyddyn.

Pam mae 'brenhinol' yn yr enw?

Mae rhyw fath o Fathdy Brenhinol yn gwneud arian ers y nawfed ganrif. Am amser hir, doedd dim teledu a phapurau newydd, a doedd dim Rhyngrwyd. Gweld llun ar ddarn arian oedd yr unig ffordd o weld sut roedd y teyrn yn edrych.

O adeg Harri'r VIII ymlaen, mae llun y teyrn ar y darn arian wedi newid wrth iddo heneiddio. Mae pum llun o'r Frenhines Elizabeth wedi bod ar ddarnau arian.

Lleoliad y Bathdy Brenhinol

- Roedd y Bathdy Brenhinol yn Nhŵr Llundain o 1279 i 1809.
- Symudodd i'r Gwynfryn, wrth ymyl y Tŵr, yn 1810.
- Ym mis Rhagfyr 1968, agorodd y Frenhines y Bathdy Brenhinol newydd yn Llantrisant, de Cymru.



Dylunio'r arian

Edrychwch ar y darnau arian sydd gennych chi. Mae lluniau gan artistiaid ar bob un. Os edrychwch chi drwy chwyddwydr ar waelod y darn, fe welwch chi lythrennau blaen yr artist. Er enghraifft, Christopher Ironside a wnaeth luniau ar ddarnau arian cyn 2008, felly mae C.I i'w weld. Ers 2008, lluniau Matthew Dent sydd ar y darnau.

Chwith, dde, chwith, dde

Heb edrych ar ddarn arian, ceisiwch ateb y cwestiwn hwn: i ba gyfeiriad mae'r Frenhines Elizabeth II yn wynebu?

Clw: Mae'r teyrn yn wynebu i'r chwith neu i'r dde bob yn ail. Roedd y Brenin Siôr VI, tad y Frenhines Elizabeth, yn wynebu i'r chwith.

Cynffonnau

Mae dros 100 o luniau gwahanol ar gefn, neu gynffon, darnau arian Prydain.

Ydych chi wedi gweld llun tarian ar gefn darn £1? Ers 2008 mae lluniau o ddarnau o'r darian ar y darnau 1c, 2g, 5c, 10c, 20c a 50c. Os rhowch chi nhw at ei gilydd, mae'r darian gyfan i'w gweld.

Darn £1 newydd yn 2017



Bydd darn £1 newydd yn cael ei gyflwyno yn 2017. Bydd yn dod yn lle'r 'bunt gron', oherwydd bod mwy a mwy o ddarnau ffug. Bydd y darn newydd yn anodd ei gopïo ac yn cynnwys:

- siâp 12 ochrog
- metel o ddau liw (yn debyg i'r darn £2)
- delwedd gudd

Gofynnwch i aelodau hŷn y teulu a ydyn nhw'n cofio'r hen ddarn tair ceiniog. Bydd y darn £1 newydd yr un siâp â hwn.



Medalau

Hefyd, mae'r Bathdy Brenhinol yn cynhyrchu medalau:

- medalau milwrol, fel Croes George
- medalau i gofio digwyddiadau brenhinol fel Jiwbill'r Frenhines
- medalau Olympaidd a Pharalympaidd.

Cynhyrchodd y Bathdy Brenhinol 4,700 medal ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Roedd diamedr y medalau aur yn 76 milimetr, a dyma'r medalau mwyaf, a'r trymaf erioed i Gemau'r Haf. Roedd pob medal yn cymryd deg awr i'w gwneud.

Gweld y gwaith yn Llantrisant

Mae hi'n bosibl mynd ar daith dywys o amgylch y Bathdy Brenhinol. Cewch wneud llawer o bethau:

- cael gwybod am hanes bathu arian ym Mhrydain
- dod i ddeall sut mae arian yn cael ei fathu
- gweld peiriannau'n bathu arian
- gweld arddangosfa o ddarnau arian hen a newydd
- bathu darn o arian eich hun.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Y Bathdy Brenhinol	lle mae arian Prydain a gwledydd eraill yn cael ei fathu	The Royal Mint
bathu	gwneud arian	to mint, to coin
heneiddio	mynd yn hŷn	to get older, to age
teyrn	brenin neu frenhines	monarch
traddodiad	arfer	tradition
ffug	ddim yn iawn	false, counterfeit
delwedd	llun	image

Tlodi yng Nghymru - Gweiddi



Pobl y Banc Bwyd

Mae rhai yn plygu'u pennau

Wrth gyrraedd y tro cyntaf.

Wynebau'n llawn cywilydd:

Hwn ydy'r dewis diwethaf.

Fe gollodd Non ei hiechyd

Ac yna'i swydd, ac felly

Heb y banc bwyd mi fyddai

Ei phlant hi bron â llwgu.

Mae Huw yn gorfod dewis

Rhwng gwres a bwyd yn gyson.

Mae'n methu fforddio'r ddeubeth:

Mae bron â thorri'i galon.

Er bod Myfanwy'n brysur,

A'i dwy swydd yn ei blino,

Ni all hi fwydo'r teulu

Er gwaethaf yr holl weithio.

Fy ngobaith yw cael helpu

Y rhain drwy gyfnod caled

Mae'n gysur iddynt wybod

Bod yma ddrws agored.

Darn o wybodaeth

Mae gan Ymddiriedolaeth Trussell 424 banc bwyd. Mae'r ffigurau dangos bod 1,109,309 pecyn bwyd argyfwng wedi'u rhoi i bobl yn 2015/16. Mae hyn 2% yn fwy nag yn 2014/15.

Byd heb arian? - Gweiddi



Beth yw cyfnewid?

System yw cyfnewid lle mae un person yn rhoi nwyddau neu wasanaethau ac yn cael nwyddau neu wasanaethau yn ôl. Does dim arian yn newid dwylo.

Mae cyfnewid yn gweithio'n dda os yw'r ddau berson eisiau rhywbeth sydd gan y llall. Er enghraifft, os mai crydd sy'n gwneud esgidiau ydw i, a bod angen cig arnaf, gallwn gynnig esgidiau i'r cigydd yn gyfnewid am gig. Ond os oes digon o esgidiau gan y cigydd yn barod, dydy'r system ddim yn gweithio. Dyna pam dechreuodd pobl ddefnyddio arian.

Hanes cyfnewid

Dechreuodd llwythau o bobl gyfnewid nwyddau tua 6,000 CC. Dros y canrifoedd, roedd bwyd, arfau, crefftau, ffwr, defnydd sidan, sbeisys a halen yn cael eu cyfnewid. Roedd halen yn werthfawr iawn ac yn cael ei ddefnyddio i dalu milwyr Rhufeinig, er bod arian i'w gael erbyn hynny.

Hyd yn oed pan oedd arian yn cael ei ddefnyddio, mae cyfnewid wedi bod yn boblogaidd pan fydd arian yn brin. Er enghraifft, adeg Dirwasgiad Mawr y 1930au, byddai pobl yn gwneud gwaith er mwyn cael bwyd, nid arian.

Cyfnewid yn boblogaidd

Erbyn heddiw, mae cyfnewid wedi dod yn boblogaidd eto, er enghraifft, drwy'r Rhynggrwyd. Mae'n bosibl cyfnewid â phobl ym mhen draw'r byd.

- Gallech chi ddefnyddio gwefan ocsiwn ar-lein a marchnadoedd ffeirio (*swap markets*) i gyfnewid pethau nad ydych chi eu hangen nhw.
- Yn eich ardal leol, gallech chi gynnig gwasanaeth a chael eich talu mewn nwyddau neu wasanaethau, e.e. gallech chi gynnig garddio i rywun, a bydd y person hwnnw'n smwddio eich dillad yn lle hynny.
- Mae rhai pobl yn cyfnewid cartrefi am ychydig wythnosau. Er enghraifft, os ydych chi eisiau mynd ar wyliau i Sbaen, gallech chi gynnig i deulu o Sbaen ddod i aros yn eich cartref chi tra byddwch chi'n aros yn eu cartref nhw.

Manteision cyfnewid

- Does dim angen gwario arian.
- Mae cyfnewid yn hyblyg iawn. Gallech chi gyfnewid pethau tebyg, fel llechen neu dabled am gyfrifiadur, neu bethau cwbl wahanol i'w gilydd, fel peiriant golchi am deledu.
- Does dim rhaid cyfnewid nwyddau bob tro. Gallech chi gynnig gwasanaeth am nwyddau, er enghraifft, gallech chi gynnig trwsio beic eich ffrind a chael sglefrwrdd am wneud hynny.

Anfantais cyfnewid

- Yn enwedig ar y Rhynggrwyd, gallai rhywun fod yn ceisio eich twyllo chi. Os nad ydych chi'n adnabod y person, byddwch yn ofalus iawn. Efallai nad yw'r nwyddau rydych chi'n eu cael yn gyfreithlon (er enghraifft, gallen nhw fod wedi'u dwyn), neu efallai nad ydyn nhw'n gweithio'n iawn. Fyddech chi ddim eisiau cyfnewid rhywbeth sydd bron yn newydd sbon am hen beth nad yw'n gweithio'n iawn. Felly, cyfnewidiwch â phobl rydych chi'n gallu ymddiried ynddyn nhw, fel aelodau o'r teulu a ffrindiau.

Geirfa

Cymraeg

Disgrifiad

Saesneg

cyfnewid

rhoi nwyddau neu wasanaeth a chael nwyddau neu wasanaeth yn eu lle

bartering

Gwneud bywoliaeth ar y we!



Oes rhaid cael 'swydd go iawn' i wneud bywoliaeth? Mae'n debyg fod eich athrawon a phobl gartref yn dweud wrthoch chi am weithio'n galed yn yr ysgol er mwyn cael 'swydd go iawn'. Ond beth yw 'swydd go iawn' y dyddiau hyn?

Dyma rai enghreifftiau o bobl ifanc sydd wedi gwneud ffortiwn drwy ddefnyddio'r we.

PewDiePie, 26 oed

Felix Kjellberg yw ei enw go iawn, ond PewDiePie yw ei enw ar YouTube. Mae'n dod o Sweden yn wreiddiol. Ei sianel yw'r un fwyaf poblogaidd ar YouTube, gyda 46 miliwn o bobl yn tanysgrifio iddi. Mae o'n werth £14 miliwn.

Beth mae o'n ei wneud?

Mae'n recordio ei hun yn chwarae gemau fideo ac yn gwneud sylwadau amdanyn nhw. Mae'n ymateb yn ddoniol iawn weithiau, a dyna pam mae ei fideos yn boblogaidd.

Beth yw barn ei rieni?

Doedden nhw ddim yn hapus yn wreiddiol. Pan oedd PewDiePie yn yr ysgol, byddai'n chwarae triwant ac yn mynd i chwarae gemau fideo gyda'i ffrindiau mewn caffi lleol.

Er iddo fynd i'r brifysgol i astudio, penderfynodd adael pan ddechreuodd ei fideos ar YouTube ddod yn boblogaidd.

"I ddechrau, roedd fy rhieni'n gandryll. Dywedon nhw na fydden nhw'n rhoi arian i mi i fyw, ac roedd rhaid i mi werthu cŵn poeth er mwyn dal deupen llinyn ynghyd."

Erbyn hyn, mae'n byw yn Brighton, Lloegr, a dydy ei rieni ddim yn poeni mwyach. Maen nhw'n sylweddoli ei fod yn graig o arian!



Jamal Edwards, MBE, 25 oed

Mae Jamal Edwards yn dod o orllewin Llundain. Mae'n rapiwr ac mae'n berchennog SBTV* – cwmni darlledu sy'n gwneud fideos cerddoriaeth a rap, ac yn eu rhoi ar YouTube. Mae o'n werth tua £8 miliwn.

Sut mae'n gwneud arian?

Mae miliynau o bobl yn edrych ar fideos SBTV ac ar yr hysbysebion sy'n ymddangos gyda nhw. Felly, mae cwmni Jamal yn cael canran o'r arian y mae YouTube yn ei ennill am hysbysebion.

Sut dechreuodd pethau?

Cafodd gamera fideo syml yn anrheg Nadolig pan oedd yn 15 oed. Dechreuodd ffilmio ffrindiau'n rapio neu'n canu, ac yna byddai'n lanlwytho'r fideos i YouTube er mwyn i ffrindiau eraill eu gweld.

Gadawodd yr ysgol a mynd i weithio yn Topman. Yn ei amser hamdden byddai wrthi'n brysur yn gwneud fideos. Dechreuodd mwy a mwy o bobl wyllo'r fideos, felly sefydlodd gwmni SBTV a chyn hir, roedd cannoedd o filoedd o bobl ifanc yn gwyllo.

Felly, cysylltodd Jamal â YouTube i weld a oedd ganddo hawl i ychydig o arian yr hysbysebion. Gwrthododd YouTube dair gwaith, ond daliodd Jamal ati. Profodd mai ei waith gwreiddiol ef oedd y fideos ac anfonodd YouTube siec o ychydig gannoedd o bunnau ato.

"Doedd fy rhieni ddim yn hapus i ddechrau achos doedd dim digon o arian i wneud bywoliaeth. Ond o dipyn i beth, aeth y sieciau'n fwy ac yn fwy. Yn y pen draw, gadewais Topman a mynd i redeg SBTV yn llawn amser."

Erbyn hyn mae Jamal yn cyflogi 12 aelod o staff. Mae gan SBTV ei gwefan ei hun ac arni storïau newyddion ac erthyglau, yn ogystal â fideos. Hefyd, mae Jamal wedi lansio ei label dillad ei hun ac mae wedi cyhoeddi e-lyfr o'r enw *Self Belief: The Vision*.

Cyngor Jamal, "Rhowch gynnig ar unrhyw beth, peidiwch ofni methu. Yr unig bryd rydych chi'n methu yw os nad ydych chi'n rhoi cynnig arni. A phan fyddwch chi'n dod o hyd i rywbeth rydych chi'n dda iawn am ei wneud, ewch amdani."

*(SB = SmokeyBarz, llysenw rapio Jamal ei hun)

Gyrfaedd ym myd arian - Gweiddi



Anfonwyd: Dydd Llun, 26 Medi 2016 02:25

Oddi wrth: beds@ebostcymru.com

At: cyngor@gyrfaeddyngnghymru.org

Annwyl Gyrfaedd yng Nghymru,

Tybed a allwch chi fy helpu i? Mae gen i ddiddordeb ysol mewn cael gyrfa ym myd arian.

Pan oeddwn i'n ddim o beth, byddwn i'n edrych i weld sut roedd y bunt yn codi ac yn disgyn yn erbyn yr euro a'r ddoler. Erbyn hyn, rwy'n dilyn hynt a helynt y farchnad stoc a gwahanol gwmnïau.

Byddwn wrth fy modd pe gallwn i gael swydd ym myd arian. Heblaw am weithio mewn banc, pa ddewis arall sydd? Pa bynciau y dylwn i fod yn eu hastudio i TGAU a Safon Uwch? Yn ogystal, dydw i ddim wir eisiau gadael Cymru, felly pe gallech chi awgrymu gyrfa y gallwn ei dilyn yng Nghymru, byddai hynny'n wych.

Diolch yn fawr am bob cymorth.

Hwyl,

Bedwyr Williams (14 oed)

Anfonwyd: Dydd Llun, 26 Medi 2016 02:35

Oddi wrth: cyngor@gyrfaeddyngnghymru.org

At: beds@ebostcymru.com

Annwyl Bedwyr,

Diolch yn fawr am dy e-bost. Mae'n ddiddorol gweld bod pobl ifanc yn ymddiddori cymaint ym myd arian. Mae angen pobl fel ti arnon ni yma yng Nghymru!

Banciau a Chymdeithasau Adeiladu

Fel y soniaist ti, swydd gyda banc neu gymdeithas adeiladu yw'r dewis amlwg wrth feddwl am yrfa ym myd arian. Mae angen pobl mewn canolfannau cyswllt i drafod â chwsmeriaid dros y ffôn, dros Skype neu'r

cyfryngau cymdeithasol a hefyd wyneb yn wyneb yn y canghennau. Mae'r swyddi'n amrywio o fod yn ariannwr mewn cangen i reolwr banc, gyda swyddi arbenigol eraill ym maes TGCh, Marchnata, Ymchwil a Datblygu ac ati. Felly gall fod yn ddefnyddiol i ti astudio TGCh, mathemateg, busnes, neu economeg.

Mae gweithio i fanc neu gymdeithas adeiladu'n ddewis doeth os wyt ti eisiau aros yng Nghymru gan fod swyddi hwnt ac yma ledled y wlad. Wedi dweud hynny, mae llawer o ganghennau banc wedi cau'n ddiweddar.

Cyfrifeg

Wyt ti'n dda mewn mathemateg? Er mwyn bod yn gyfrifydd, bydd angen gradd mewn mathemateg, a bydd angen iti basio arholiadau pellach hefyd. Mae cyfrifydd yn gofalu am gyfrifon unigolion neu gwmnïau, e.e. gwneud yn siŵr fod person neu gwmni'n talu'r dreth gywir. Mae cwmnïau bach a mawr yn gwneud y gwaith hwn ac mae swyddi ar gael ym mhob cwr o Gymru, fwy neu lai.

Yswiriant

Mae cwmnïau yswiriant yn cynnig yswiriant yn erbyn rhywbeth gwael a allai ddigwydd, e.e. yswirio'r car rhag damwain, yswirio'r tŷ rhag difrod tân neu lifogydd, yswiriant bywyd. Mae gweithwyr ym maes yswiriant yn cydweithio'n agos â meddygon, cyfreithwyr a swyddogion tân er mwyn asesu risg cyn cynnig polisi yswiriant neu os yw cleient yn hawlio yn erbyn polisi yswiriant.

Un o brif gwmnïau yswiriant Prydain yw Admiral, sydd â swyddfeydd yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe, felly gallai'r cwmni fod o ddiddordeb i ti pe hoffet ti fyw a gweithio yn ne Cymru.

Cynllunio ariannol

Mae swyddi yn y maes hwn yn canolbwyntio ar roi cyngor i unigolion a chwmnïau fel y gallan nhw gynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol. Bydd cynghorydd ariannol yn edrych ar incwm person ac yn rhoi cyngor iddo, e.e. gall awgrymu ffyrdd o fuddsoddi'r arian fel bod gan y person bensiwn yn y dyfodol.

Os wyt ti'n hollol siŵr yn barod dy fod eisiau bod yn gynghorydd ariannol, mae modd astudio cwrs penodol yn y maes. Neu, mae economeg, busnes neu fathemateg yn bynciau da i'w hastudio. O ran aros yng Nghymru, mae cynghorwyr ariannol yn gweithio ym mhob rhan o'r wlad.

Wel, Bedwyr, dyna'r prif feysydd lle gallet ti ddilyn gyrfa ym myd arian. Gobeithio y bydd rhai ohonyn nhw o ddiddordeb i ti, ac mae croeso i ti gysylltu â mi eto os oes arnat ti eisiau rhagor o gyngor.

Hwyl am y tro,

Mari Taylor,

Gyrfaoedd yng Nghymru

Mae bechgyn yn cael mwy o arian poced na merched!



Bechgyn yn cael mwy o arian poced na merched

Mae bechgyn yn cael mwy o arian poced na merched, yn ôl arolwg blynyddol gan fanc Halifax.

Roedd yr arolwg o arian poced yn cynnwys dros 1,800 o blant a 575 rhiant ledled Prydain. Ar gyfartaledd, roedd plant rhwng 8 a 15 oed yn cael £6.55 o arian poced yr wythnos. Ond roedd gwahaniaeth amlwg rhwng y swm mae bechgyn a merched yn ei gael. Roedd bechgyn rhwng 8 a 15 oed yn cael £6.93 yr wythnos, a merched yn cael £6.16 ar gyfartaledd.

Yn ôl yr arolwg, roedd 40% o'r plant yn meddwl y dylen nhw gael rhagor o arian, ond roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o gwyno ac o ofyn am ragor o arian poced. Roedd y bechgyn yn dweud wrth eu rhieni eu bod nhw'n haeddu cael rhagor o arian.

Yn ôl un sylwebydd, "Byddai'n ddiddorol gweld a yw rhieni'n gwahaniaethu rhwng bechgyn a merched o fewn un teulu. Efallai nad yw rhieni'n sylweddoli eu bod nhw'n rhoi mwy o arian i fechgyn na merched."



Mae'r ffaith fod bechgyn yn cael mwy o arian poced na merched yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y gweithle. Er bod Deddf Cyflog Cyfartal, 1975 yn dweud bod rhaid i fenywod a dynion gael yr un cyflog am yr un gwaith, mae dynion fel arfer yn ennill mwy o arian na menywod. Yn wir, mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod bwlch o 9.4% rhwng cyflogau dynion a menywod.

Yn y gweithle hefyd, mae dynion yn fwy tebygol o ofyn am ragor o arian, ac mae menywod yn fwy tebygol o aros tan y byddan nhw'n cael cynnig codiad cyflog.

Yn ôl Hannah Maundrell, prif olygydd gwefan money.co.uk, "Dydy'r bwlch rhwng arian poced bechgyn a merched ddim yn newyddion da o gwbl. Mae angen i ferched fod â digon o hyder i fargeinio ac i holi am ragor o arian poced. Dyma'r cyfle i ymarfer fel y gallan nhw wneud yr un fath pan fyddan nhw'n hŷn a holi am ragor o gyflog yn y gweithle."

Dyma rai ffeithiau eraill o'r arolwg:

- Mae 89% o rieni Prydain yn credu y dylai plant ddechrau cael arian poced pan fyddan nhw'n chwech i saith mlwydd oed.
- Roedd bron 80% o'r plant yn yr arolwg yn cynilo rhywfaint o'r arian, gyda 12½% yn cynilo eu harian i gyd.

Mae peth gwahaniaeth rhwng cyfartaledd yr arian poced y mae plant 8–15 oed yn ei gael mewn gwahanol rannau o Brydain:

- Llundain, £8.21
- Yr Alban, £7.06
- De Ddwyrain Lloegr, £6.83

- Gogledd Orllewin Lloegr, £6.68
- Gogledd Ddwyrain, £6.51
- **Cymru, £6.44**
- De Ddwyrain Lloegr, £6.36
- Gorllewin Canolbarth Lloegr, £5.84
- Dwyrain Canolbarth Lloegr, £5.33
- Dwyrain Anglia, £4.96

A yw hi'n werth gwario arian ar opera?



Dyma ddau lythyr sy'n mynegi dau safbwynt gwahanol.

Annwyl Olygydd,

Mae hi'n adeg anodd yn ariannol, gyda thoriadau'n digwydd ym mhob maes. Clywn am gymaint o dorri'n ôl: llyfrgelloedd yn cau, canolfannau hamdden yn agor am lai o oriau, llai o wasanaethau bysus, dosbarthiadau mewn ysgolion yn mynd yn fwy, rhestrau aros mewn ysbytai'n tyfu, llai o ofal i'r henoed, ac ati. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Felly, ar adeg o gynt ariannol, oes modd cyfiawnhau'r swm mawr o arian cyhoeddus – bron i £11m – y mae'r Cwmni Opera Cenedlaethol yn ei dderbyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr bob blwyddyn? Pam mae angen gwario cymaint o arian cyhoeddus ar rywbeth elitaidd fel opera? Rhywbeth i'r crach yw opera, y math o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Oni fyddai'n well cael llai o opera a mwy o wasanaethau hanfodol i'n cymunedau bregus ni ledled Cymru?

Yn gywir,

Ben Morris

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ymateb i lythyr Ben Morris sy'n honni na allwn ni fforddio rhoi rhagor o arian cyhoeddus i Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

Yn bendant, mae modd cyfiawnhau'r £11m o arian cyhoeddus y mae'r Cwmni Opera Cenedlaethol yn ei dderbyn. Fel y gwyrddoch, mae cartref y cwmni yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Mae dros 200 o staff parhaol yn cael eu cyflogi, gyda 40 o gantorion yn y corws, a 55 cerddor yn y gerddorfa. Mae'r cwmni'n perfformio i 120,000 o bobl mewn 10 lleoliad drwy Gymru a Lloegr yn flynyddol. Yn ogystal, mae'n mynd allan i gymunedau llai i berfformio i bobl ifanc. Felly, ai rhywbeth elitaidd yw opera mewn gwirionedd?

At hyn, rhaid cofio, er bod y Cwmni Opera'n derbyn lawer o arian, ei fod yn cyfrannu i'r economi hefyd. Mae adeilad fel Canolfan Mileniwm Cymru yn cynhyrchu incwm mawr yng Nghaerdydd, i fwytai a gwestai ac ati, hyd at **bum gwaith** yr arian y mae'r Cwmni Opera yn ei dderbyn, yn ôl rhai. Felly, mae'r buddsoddiad yn talu ar ei ganfed!

Mae'n costio llai i weld opera nag y mae'n ei gostio i weld gêm rygbi: y llynedd, £28.50 oedd cyfartaledd pris tocyn. Faint yw cost mynd i weld gêm rygbi erbyn hyn? Yn ogystal, mae rhai o dan 30 oed yn gallu dewis eu seddi am £5 yn unig. Mae hyn yn denu llawer o bobl ifanc i weld opera a mwynhau pethau gorau bywyd.

Yn ddiweddar, clywais fod David Pountney, Cyfarwyddwr Artistig y Cwmni Opera Cenedlaethol wedi dweud bod perygl y byddwn ni'n 'troi'n ôl yn anifeiliaid' os na fyddwn ni'n rhoi arian cyhoeddus i sefydliadau celfyddydol. Dywedodd fod y gymdeithas yn creu digon o arian dros ben i dalu am bethau hyfryd fel y celfyddydau, a heb y pethau hyn, byddem yn troi'n ôl yn anifeiliaid. Rwy'n cytuno gant y cant.

Felly, yn bendant, mae modd cyfiawnhau'r arian cyhoeddus sy'n cael ei roi i Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

Yn gywir,

Marilyn Hughes